



Adroddiad Arolygu ar gyfer

17 Ffordd Garnedd

**17 Ffordd Garnedd
Y Felinheli
LL56 4QY**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/02/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â 17 Ffordd Garnedd

| | |
|---|--|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited |
| Lleuedd cofrestredig | 2 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |

Crynodeb

Ar adeg yr arolygiad, roedd y cartref wedi bod heb reolwr ers mis Mehefin 2021, ond cawsom ein hysbysu bod rheolwr newydd wedi'i benodi'n ddiweddar. Ers i'r rheolwr blaenorol adael, mae uwch-aelod o'r tîm staff gofal wedi cyflawni tasgau rheoli yn ogystal â gweithio ar shifft. Adroddodd y staff gofal lefel dda o gefnogaeth gan yr uwch-reolwr a'r rheolwr ardal.

Mae niferoedd digonol o staff gofal yn cael eu cyflogi yn y cartref sy'n adnabod y bobl yn dda ac yn rhoi gofal cyson a pharchus. Mae'r staff gofal yn brofiadol, yn wybodus ac yn derbyn hyfforddiant, fodd bynnag byddai hyfforddiant manylach yn gwella dealltwriaeth aelodau'r staff gofal o anghenion y bobl. Mae'r bobl wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn byw yn y cartref. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu lleisiau'r bobl, a sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu pan fydd anghenion y bobl yn newid. Nid yw'r bobl yn sicr sut i fynegi eu barn, ac yn absenoldeb rheolwr, pwy y gallant siarad â nhw os oes ganddynt unrhyw broblemau. Mae angen gwella prosesau sicrhau ansawdd.

Yn gyffredinol, gofelir am y bobl mewn amgylchedd diogel, sydd wedi'i addurno'n ddymunol, yn lân ac yn gartrefol. Ar y cyfan, gall y bobl ddewis addurniadau'r ystafelloedd gwely a'r fflat. Fodd bynnag, mae'r eiddo'n fach ar gyfer dau o bobl a chyda dau aelod o staff gofal yn bresennol, gall deimlo'n gyfyng. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau ymatebion amserol i broblemau amgylcheddol. Cafwyd problemau hirsefydlog yn yr eiddo gyda lleithder a llwydni, sydd ond ar fin cael sylw.

Llesiant

Nid yw'n glir p'un a yw'r bobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael i'w helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae gan y bobl gynllun personol, sy'n cynnwys yr hyn y bydd y staff gofal yn ei wneud i'w cefnogi o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau'n adlewyrchu canlyniadau llesiant yn llawn megis sut y bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed a bod eu nodau personol yn cael eu cyflawni. Gan nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu at y cynlluniau ar ôl iddynt gael eu hadolygu, nid oes tystiolaeth bod y staff gofal yn gwrandao ar farn a cheisiadau'r bobl ac yn cymryd camau i wneud newidiadau. Nid yw'r bobl yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaeth eirioli pe byddai angen. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r staff gofal, ond nid ydynt yn sicr sut a phryd y gallant siarad â'r rheolwyr.

Mae'r staff gofal yn annog ac yn cynorthwyo'r bobl i fod yn iach yn gorfforol. Mae ganddynt gyswllt â gweithwyr iechyd proffesiynol ac maent yn monitro iechyd corfforol y bobl, sy'n sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir cyn gynted â phosibl. Mae'r staff gofal yn annog pobl i fod yn egnïol ac i fwyta'n iach. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthynas gadarnhaol â'r staff gofal.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt fynediad at bolisi diogelu manwl. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o sut i gadw'r bobl yn ddiogel a sut i gymryd camau os ydynt yn pryderu am eu llesiant. Mae'r darparwr yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn gywir i sicrhau bod y staff gofal yn ddiogel i weithio gyda phobl.

Mae hunaniaethau a diwylliannau unigol pobl yn cael eu parchu. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn cyflogi rhai staff gofal sy'n siarad Cymraeg. Er nad yw unrhyw un o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn siarad Cymraeg iaith gyntaf, dywedodd yr uwch-aelod o staff gofal wrthym fod y gwasanaeth yn gallu darparu staff gofal sy'n siarad Cymraeg os oes angen. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gael cyswllt â'u teuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac nid oes ganddynt unrhyw hobiau y tu allan i'r cartref, ac nid yw'r cynlluniau personol yn nodi ai dewis y bobl yw hyn ai peidio. Felly, prin yw'r dystiolaeth y gall y bobl ddewis gwneud pethau sy'n bwysig iddynt a chael bywyd cymdeithasol.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl wedi ymgartrefu yn y cartref ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff gofal sy'n darparu gofal cyson iddynt. Maent yn trin y bobl ag urddas a pharch er mwyn iddynt deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol yn dangos eu bod wedi'u llunio ar y cyd â'r bobl. Er bod y cynlluniau personol yn cofnodi anghenion ac arferion gofal a chymorth y bobl, nid oes ganddynt nodau personol clir, ac nid ydynt yn adlewyrchu diddordebau'r bobl. Nid yw'r adolygiadau o'r cynlluniau yn rhoi unrhyw fanylion am y cynnydd a wnaed nac unrhyw faterion sydd wedi datblygu. Nid yw'r gwaith o ymgynghori â gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol a theuluoedd y bobl yn glir yn y cynlluniau.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i wneud pethau drostynt eu hunain, fel siopa a choginio, ond nid yw'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r cartref ar hyn o bryd. Nid oes tystiolaeth bod y staff gofal yn annog y bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, neu i'w helpu i gael bywyd cymdeithasol. Nid yw'n glir p'un a yw'r bobl yn teimlo y gallant rannu eu pryderon. Nid yw'r staff gofal yn cofnodi trafodaethau na sgysiau arwyddocaol gweithwyr allweddol, felly nid oes tystiolaeth bod y staff gofal yn cymryd rhan mewn sgysiau i nodi nodau unigol y bobl, nac i wirio llesiant emosiynol y bobl.

Mae'r staff gofal yn monitro anghenion iechyd corfforol y bobl ac maent yn eu hannog i gadw'n iach a byw'n iawn. Mae'r bobl yn cofrestru gyda gwasanaethau iechyd, ac mae'r staff gofal yn cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r staff gofal yn cydnabod newidiadau yn ymddygiad y bobl, ac yn ceisio cyngor gan wasanaethau priodol pan fydd angen. Mae systemau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio a'i rhoi'n ddiogel.

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith i leihau'r risg y bydd y bobl a'r staff yn dal COVID-19, sy'n cynnwys glanhau'r amgylchedd yn rheolaidd yn ystod y dydd a gofyn i'r staff gofal gwblhau profion COVID-19. Fodd bynnag, nid oedd y staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ystod ein hymweliad, ac o ystyried cyfyngiadau'r gofod a nifer y staff gofal sy'n ymweld â'r gwasanaeth, byddai hyn yn sicrhau lefel uwch o ddiogelwch i'r bobl sy'n byw yn y cartref.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n lân ac sy'n darparu amgylchedd personol. Fflat llawr daear yw'r cartref sydd wedi'i leoli ar ystâd dai preswyl. Mae'r fflat yn cynnwys dwy ystafell wely, ystafell ymolchi a lolfa/ystafell fwyta/cegin cynllun agored, sy'n cynnwys yr holl gyfarpar ac offer angenrheidiol. Er bod yr ardaloedd byw cymunol yn lân ac yn daclus, mae'r ystafell ymolchi yn ddi-raen gan fod llwydni, gollyngiadau o'r toiled, a chypyrddau'r wal wedi'u difrodi. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn hapus gyda'i ystafell wely a'r fflat yn gyffredinol a'i fod wedi gallu dewis yr addurniadau a rhoi eitemau personol ynddi. Fodd bynnag, mae'r fflat yn fach i ddau unigolyn fyw ynddi gyda hyd at ddau aelod o staff. Yn ogystal, roedd staff gofal o gartref gofal cyfagos darparwr y gwasanaeth yn bresennol ar adeg yr arolygiad, felly roedd y lle yn teimlo'n gyfyng. Mae tasgau golchi dillad yn anodd eu cwblhau gan fod cyfleusterau sychu dillad addas yn gyfyngedig. Nid oes man ychwanegol i'r staff wneud gwaith papur na chael sgysiau cyfrinachol, ac mae'r staff sy'n cysgu yn y tŷ bob nos yn cysgu ar wely sofffa yn y lolfa.

Mae'r cyn-reolwr wedi cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch o'r safle bob tri mis; ac ers iddo adael, mae'r rheolwr ardal yn gwneud hynny.. Cadarnhaodd archwiliad o gofnodion bod gwiriadau offer gwresogi a thrydanol ar waith. Mae'r staff gofal yn profi offer diogelwch tân bob wythnos ac mae asesiad risg tân ar waith. Mae'r staff gofal yn cofnodi tymheredd yr oergell a'r rhewgell bob dydd, ac roedd cofnodion yn dangos bod tymheredd yr oergell wedi bod yn rhy uchel am nifer o ddyddiau. Mae cofnodion archwilio'r safle yn dangos y bu problem gyda lleithder a llwydni yn y fflat ers dros 13 mis. Mae'r cyn-reolwr a'r rheolwr ardal wedi codi hyn gyda darparwr y gwasanaeth yn dilyn pob archwiliad tri mis; fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad roedd y materion ond ar fin cael sylw. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd lle mae risgiau i'w hiechyd a diogelwch yn cael eu nodi, fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â materion gwaith cynnal a chadw mewn modd amserol.

Mae gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n ddiogel, ac nid yw ymwelwyr â'r cartref yn gallu cael mynediad heb wiriadau adnabod. Dylai'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ardal hefyd gwblhau'r cofnod ymwelwyr pan fyddant yn ymweld â'r gwasanaeth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi sut y bydd y cartref yn diwallu anghenion y bobl yn natganiad o ddiben y cartref, ac yn cyflogi niferoedd digonol o staff gofal, sy'n cael eu recriwtio'n briodol, ac sydd â'r wybodaeth a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant cyn dechrau yn eu swydd, ac mae disgwyl iddynt fynychu hyfforddiant parhaus, ac mae'r rheolwr ardal yn monitro eu presenoldeb. Dywedodd y staff gofal wrthym y byddai'n well ganddynt fwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein. Mae uwch aelod o staff yn goruchwyllo'r staff gofal bob dau fis. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys trafodaethau am faterion arfer, anghenion hyfforddi a llesiant aelodau'r staff eu hunain. Cynhelir cyfarfodydd tîm ond byddai'n fuddiol cael mwy o strwythur iddynt. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth a bod morâl yn dda yn gyffredinol.

Mae angen gwella'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith i oruchwyllo swyddogaeth y cartref ac adolygu safonau gofal. Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r cartref bob tri mis, a llunio cofnod o'r ymweliad. Roedd adroddiadau ymweliad yr unigolyn cyfrifol a welsom yn fanwl ac yn cynnwys sgysiau â'r bobl a'r staff gofal ac roedd yr unigolyn cyfrifol wedi nodi meysydd i fynd i'r afael â nhw. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi bod yn ymweld â'r gwasanaeth mor aml â'r hyn a nodir gan y rheoliad, ac mae adroddiadau'r ymweliadau mewn un ddogfen ar gyfer tri gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r rheoliad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol adolygu ansawdd y gofal ar gyfer pob gwasanaeth a llunio adroddiadau unigol. Rhaid i'r adroddiadau gynnwys tystiolaeth o ddadansoddiad o wybodaeth a data, a chanlyniad adborth gan y rhai sy'n defnyddio, yn gweithio neu'n comisiynu'r gwasanaeth. Byddai'r wybodaeth hon yn cefnogi datblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

| Statws | Ystyr pob un |
|-----------------------|--|
| Newydd | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| Adolygwyd | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| Ni chyflawnwyd | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| Cyflawnwyd | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a / neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|----------|---|------------|
| 16 | Pan gaiff cynlluniau personol eu hadolygu, nid ydynt yn cael eu diwygio na'u datblygu i adlewyrchu newidiadau yn anghenion gofal a chymorth a chanlyniadau personol unigolion. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolion, ac i ba raddau y maent wedi gallu cyflawni eu canlyniadau personol. Dylid cynnal adolygiadau mewn ymgynghoriad â'r unigolion. | Yn newydd |
| | Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 64. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion. | Cyflawnwyd |
| | Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 67. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi penodi unigolyn i reoli'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|--------------------------------|--|---------------|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Mae darparwr y gwasanaeth wedi methu â mynd i'r afael â materion gwaith cynnal a chadw mewn modd amserol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod materion gwaith cynnal a chadw yn cael eu datrys heb oedi. | Yn newydd |
| 59 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol na'r rheolwr ardal wedi bod yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod cofnod o bawb sy'n ymweld â'r cartref. | Yn newydd |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref bob tri mis. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis a darparu adroddiad o'r ymweliad sy'n benodol i'r cartref. | Yn newydd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi llunio adroddiad unigol i'r darparwr gwasanaeth sy'n asesu safon y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref o leiaf bob chwe mis a llunio adroddiad o'i ganfyddiadau. | Yn newydd |

Dyddiad cyhoeddi 03/05/2022